# Fframwaith Rhifedd

## Blwyddyn 3

### Adnabod prosesau a chysylltiadau

- trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- dewis strategaeth feddyliol neu ysgrifenedig priodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell
- amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir

### Cynrychioli a chyfathrebu

- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fydd wedi datblygu digon i wneud hynny
- defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol
- dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas

### Adolygu

- dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol
- dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys yr hyn y mae'r cyfrifiannell yn ei arddangos
- defnyddio data i ddod i gasgliadau, a sylweddoli y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau rhifedd)...

- darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 000
- cymharu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 100
- defnyddio strategaethau meddwl i alw ffeithiau rhif i gof o fewn 20
- galw tabl lluosi 2, 3, 5 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau lluosi a rhannu syml
- lluosi rhifau â 10
- defnyddio haneri, chwarteri mewn cyd-destunau syml, e.e. $\frac{1}{2}$ o 20
- haneru rhifau 2 ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau
- canfod symiau ffracsiwn yn gysylltiedig â'r ffeithiau sy'n hysbys am dablau, e.e. 1/3 o 18, 1/5 o 15
- canfod gwahaniaethau o fewn 100
- adio a thynnu rhifau 2 ddigid
- dosrannu er mwyn dyblu a haneru rhifau 2 ddigid
- defnyddio adio i wirio tynnu
- defnyddio dyblu i wirio haneru
- adio droeon er mwyn gwirio lluosi
- defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £2 a chyfrifo'r newid
- trefnu a chymharu eitemau hyd at £10

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau mesur)...

- defnyddio unedau mesur safonol:
  - hyd: mesur ar bren mesur i'r $\frac{1}{2}$ cm agosaf
  - pwysau: defnyddio pwysau 5g, 10g a 100g
  - cynhwysedd: defnyddio litrau a hanner litrau; mesur i'r 100ml agosaf
- dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf ar gloc analog a chyfrifo faint o amser sydd yna tan yr awr nesaf
- darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12-awr gan ddefnyddio confensiynau am/pm
- nodi darlleniadau tymheredd drwy ddefnyddio thermomedrau wedi'u labelu'n syml a dehongli darlleniadau uwch ac is na 0°C

### Rwyn gallu (defnyddio sgiliau data)...

- cyflwyno data drwy ddefnyddio:
  - rhestrau syml, siartiau cyfrif, tablau a diagramau
  - graffiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10
  - pictogramau lle bydd un uned yn cynrychioli mwy nag un gwrthrych drwy ddefnyddio allwedd syml
  - diagramau Venn a Carroll
- echdynnu a dehongli gwybodaeth o siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau syml.

